**Eluned Morgan AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.cymru

19 Medi 2024

Annwyl Mike

**Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Arbed a Throsiannol) (Diwygio) 2024**

Rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor fy mod bellach wedi rhoi fy nghaniatâd i Ysgrifennydd Seneddol Swyddfa'r Cabinet i wneud Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Arbed a Throsiannol) (Diwygio) 2024.

Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig mewn perthynas â'r mater hwn sydd ar gael yn:

WS-LD16669 – Datganiad Ysgrifenedig: Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Arbed a Throsiannol) (Diwygio) 2024

Er mwyn gweithredu'r drefn gaffael newydd o dan Ddeddf Caffael 2023 (y Ddeddf), mae angen gosod Rheoliadau Cychwyn o dan adran 127 o'r Ddeddf er mwyn diwygio'r dyddiad y bydd y drefn newydd yn dod i rym yn gyfreithiol. Bydd Llywodraeth y DU yn gwneud y rheoliadau hyn yn unol ag adran 127(3) o'r Ddeddf ac felly mae angen cydsyniad Gweinidogion Cymru.

Bydd y rheoliadau hyn hefyd yn dwyn i rym Adran 93 o'r Ddeddf ynghylch hysbysiadau Piblinell a byddant yn dirymu'r rheoliadau cyfredol.

Yn gywir,

M. E. Morgan

**Eluned Morgan**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.